



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

22 Mehefin 2018

9:00 am - 12:30 pm

Uned 21, Yr Optic, Llanelwy

Yn bresennol:	Cyng. Gareth Roberts (cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Morwena Edwards, Neil Ayling, Alwyn Jones (ar ran Caroline Turner), Nicola Stubbins, Cyng. Joan Lowe, Cyng. Llinos Medi Huws, Lyn Meadows, Dave Worrall, Cyng. Christine Jones, Jenny Williams, Vin West, Mary Wimbury, Helen Douglas (ar ran Richard Debicki), Teresa Owen, Charlotte Walton, Wendy Jones, Helen MacArthur
Ymddiheuriadau:	Morag Olsen, Margaret Hanson, Richard Debicki, Cyng Bobby Feeley, Cyng. Liz Roberts, Lynda Colwell, Andrew Long
Yn bresennol:	Richard Weigh a Lisa Jones – eitem 4 ar y rhaglen. Cyllidebau Cyfun Jane Sankey, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio – eitem 5 ar y rhaglen. Marchnad Darparwyr/5 diwrnod mewn ystafell

Eitem		Camau Gweithredu
1.	Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau	
2.	Cofnodion a champau gweithredu o'r cyfarfodydd diwethaf Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 18 Mai fel cofnod cywir. Materion yn codi: Roedd ITJ wedi cael gwahoddiad i ddod yn ôl i roi diweddariad ar yr NWEAB ym mis Hydref/Tachwedd Ffrwd waith Anableddau Dysgu - Roedd SB wedi cyfarfod gyda HoCS, diogelu, ac ar hyn o bryd yn cyrchu cynrychiolydd o fewn Addysg mewn perthynas â datblygu Strategaeth AD.	
3.	<u>Cymru Iachach – Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol</u> Aeth BJE a GR i Fwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru'n ddiweddar (NWLB). Roedd yn galonogol nodi bod y gwaith ar yr Adolygiad Seneddol wedi cael ei groesawu gyda diddordeb ac uchelgais wedi'i	

gynyddu gan yr Arweinwyr a Phrif Swyddogion Gweithredol, ac yn enwedig y farn y dylai'r gwaith fod ar yr un lefel â'r NWEAB. Mae yna ddau ddarn o waith sydd angen eu cwblhau ar frys; llywodraethu a sut mae hyn yn cydgyssylltu â gofynion LIC a'r BPRh i greu Bwrdd sy'n debycach i'r NWEAB, a'r cynllun rhanbarthol yn gynllun sydd wirioneddol ar y cyd ar draws ieuchyd a gofal cymdeithasol, gyda chefnogaeth pawb. Mae'r Athro Keith Moultrie wedi cytuno i gynorthwyo gyda'r ddau ddarn o waith ac mae grŵp Tasg a Gorffen eisoes wedi'i sefydlu i fwrw ymlaen â'r gwaith.

Nododd DW ei fod wedi'i siomi gyda chynnwys y papur, a nododd gynydd yn llwyth gwaith y Bwrdd hwn.

Roedd VW hefyd yn cytuno, gan nodi fod y ddogfen yn ddogfen gwasanaeth ieuchyd yn bennaf, a oedd wedi creu llawer o waith diangen.

Diolchodd y Cyng. LIMH, sy'n aelod o'r NWLB, i'r Cyng. GR a BJE am ddod i'r cyfarfod. Roedd y darn hwn o waith yn bwysig iawn, ond gyda'r sgwrs bosibl o uno Awdurdodau Lleol ar y rhaglen unwaith eto, nid yw cynyddu llwyth gwaith Bwrdd Rhan 9 yn ddefnyddiol ar hyn o bryd, ac yn awgrymu anfon llythyr ymlaen at Alun Davies AC i gael rhagor o wybodaeth am y mater hwn.

Teimlai JW fod angen i'r NWRPB benderfynu a yw hyn yn dod yn flaenoriaeth, roedd craidd yr adolygiad eisoes wedi'i sefydlu, sef i anelu at integreiddio. Mae hefyd yn bwysig gwrando ar safbwyntiau a fynegir gan y trydydd sector a gofawyr a chyfrannu at yr NWLB. Byddai'n well gan JW weld y Bwrdd yn cymryd arweiniad yn hytrach nag aros i weld beth fydd yn digwydd.

Cytunodd MW hefyd nad oedd y PR yn rhoi unrhyw wybodaeth nad oedd eisoes yn hysbys, ac roedd angen i'r Bwrdd gymryd arweiniad. Roedd MW yn falch o weld cyfeiriad at y gweithlu gydag integreiddiad ar draws bob rhan o'r ddarpariaeth. Mae'r NWWB yn bwrw ati â'r gwaith hwn yn barod ac efallai y gellid cynnwys hyn yn yr ymateb. Roedd MW yn siomedig i nodi'r diffyg o ran cydnabod darparwyr annibynnol o fewn yr adroddiad. Tynnwyd sylw at y pwynt hwn yn ystod rhagolwg o'r adroddiad mewn cyfarfod Grŵp Llywio Cartrefi Gofal.

Mae TO hefyd yn croesawu'r gwaith ar y PR sy'n rhoi cyfle i symud gyda'n gilydd i gyfeiriad newydd, gan ganolbwyntio gwaith ar glystyrau o fewn cymunedau, a gwaith ataliol yn cael ei gwblhau mewn partneriaeth. Mae'r amserlen yn glir, ond gallai fod yn her gyda chysylltiad digidol yn cyflwyno'r cyfle mwyaf.

Teimlai NA fod y gefnogaeth gorfforaethol gan yr NWLB yn cael ei gwerthfawrogi a byddai hefyd yn croesawu'r eglurdeb mewn perthynas â'r £100M ychwanegol a beth mae hyn yn ei olygu i Ogledd Cymru, neu a yw hyn yn cyfrif ddwywaith gyda ffrydiau ariannu eraill.

	<p>Mae ME hefyd yn croesawu'r PR sy'n cynnwys gymaint o wybodaeth i'w datblygu ymhellach. Mae ME yn ei phenodiad o Aelod Cyswllt o'r Bwrdd ar BIPBC hefyd yn ymdeimlo bod yr adroddiad yn cael ei groesawu, gan roi'r cyfle i weithio mewn ffordd wahanol. Bydd cyfeiriad clir ar gyfarfodydd cynhwysol a llywodraethu'n hanfodol.</p> <p>Cadarnhaodd GR nad yw parhau â'r status quo yn dderbyniol, mae angen partneriaeth waith agosach ac fe wnaed cais ar bawb i gydnabod y cais hwn. Mae'r PR yn rhoi'r cyfle i Ogledd Cymru gael newidiadau mawr i gydweithredu.</p> <p>Fe wnaeth TO gydnabod hefyd bod PBC hefyd wedi'u hymrwymo i gydweithredu. Bydd y PR yn peri her i bawb, wrth i bartneriaid ddarparu gwasanaeth i'r un boblogaeth, a dylid ystyried hyn fel cyfle newydd.</p> <p>Cadarnhaodd LM fod y PR wedi'i ystyried yn bennaf o fewn Bwrdd Iechyd ac yn ffurfio craidd y bwrdd wrth symud tuag at y dyfodol.</p> <p>Bydd y grŵp Tasg a Gorffen RPB yn parhau i symud ymlaen i ddatblygu'r cynllun a'r cam llywodraethu.</p>	
4.	<p><u>Cyllidebau Cyfun - Richard Weigh/Lisa Jones</u></p> <p>Roedd RW yn bresennol i roi diweddariad pellach ar y gwaith sy'n cael ei ddatblygu i sefydlu cyllidebau cyfun ar draws Gogledd Cymru. Mae hwn yn ofyniad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn cynnwys cyllideb gyfun ar gyfer swyddogaeth Cartref Gofal. Mae RW a chydweithwyr cyllid Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio i ddeall risgiau a heriau trefniadau cyllideb gyfun i ddatblygu model rhannu sydd heb risg. Er nad ydyw'n gyllideb gyfun ffurfiol, fel yn A33, mae'r gyllideb gyfun sydd wedi'i chreu yn sicr yn llawn gwybodaeth a dim ond yn un cam o'r daith integreiddio.</p> <p>Mae cyfarfod NWRPB ychwanegol wedi'i drefnu ar gais y Gweinidog, 5 Gorffennaf, lle gofynnwyd am gynnwys cyllidebau cyfun ar y rhaglen gan y Gweinidog.</p> <p>Rhoddodd RW wybod i'r Bwrdd nad oedd cyllidebau cyfun heb risg yn anghydnaws â rhanbarthau eraill. Cytunwyd ar y cwmpas i'w gynnwys yn y gronfa anffurfiol, ymhlith partneriaid h.y. y swm gros y mae pob partner yn ei wario ar ofal preswyl a nyrsio wedi'i gomisiynu, yn cynnwys FNC. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chydgrynhoi o ran adroddiad ar draws y rhanbarth ar hyn o bryd, a bydd yn cael ei hadrodd bob chwarter unwaith y caiff ei sefydlu. Bydd pob awdurdod yn gallu asesu eu sefyllfa gwariant o'i gymharu â'u cyllideb cyn unrhyw gyfuno ffurfiol, gan dynnu sylw at unrhyw danwariant neu orwariant mewn perthynas â chyfraniad partner, a chaniatáu'r rhanbarth i archwilio sut i ddelio â'r rhain mewn trefniant cyllideb gyfun ffurfiol.</p>	

<p>Mae gweithio tuag at rannu'r holl wybodaeth yn cael ei adolygu ar hyn o bryd mewn perthynas â'r trefniadau GDPR newydd. Y cynnig yw i bob partner gyflwyno'r holl ddata talu bob mis/chwarter i CSDd, sef yr awdurdod arweiniol, i'w cofnodi ar gronfa ddata cynhwysfawr ar gyfer adrodd ariannol. Rhoddodd RW wybod fod y system a'r data eisoes wedi'u profi a rhoddwyd canlyniadau defnyddiol ar batrymau a thueddiadau gwario.</p> <p>Ymholodd GR ynghylch y swm o arian ar waith sydd wedi'i gwblhau hyd yma, a phe bai hyn yn cael ei gyfuno, beth yw'r goblygiadau ariannol o weinyddu'r system.</p> <p>Ymatebodd RW fod yr wybodaeth a gasglwyd hyd yn hyn yn wahanol i bob partner, ond byddai'r gost yn seiliedig ar y gronfa ddata yn seiliedig ar £130M bob blwyddyn, a byddai'r costau i weinyddu system o'r maint hwn yn anferth. Byddai'n anarferol iawn cyfuno un system unigol o'r maint hwn. Bydd costau terfynol pellach yn cael eu paratoi wrth i wybodaeth ychwanegol gael ei rhoi, a byddai creu cronfa o'r maint hwn yn cael effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth ar draws y rhanbarth.</p> <p>Ymholodd CW ynghylch y rheswm pam nad oedd Gofal Iechyd Parhaus yn cael ei gynnwys yn yr wybodaeth.</p> <p>Datganodd LIMH y gallwn amgyffred swm y gwaith gweinyddu sydd ynghlwm wrth gymharu cyllideb flynyddol IACC sydd oddeutu £126M, a nifer y staff sy'n gweithio i'r awdurdod weinyddu ar eu cyfer.</p> <p>Datganodd NS fod y gwaith ychwanegol newydd yn cynnwys yr holl gefnogaeth lywodraethu, a gallem o bosibl fod yn edrych ar sefydlu grŵp newydd sy'n atebol i'r NWRPB.</p> <p>Adroddodd NA ynghylch gwasanaethau eraill a fyddai'n elwa o gyfuno'r cyllid a fyddai'n cynnwys Plant a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc.</p> <p>Mae ME yn croesawu'r darn hwn o waith, ac yn cytuno bod Gofal Iechyd Parhaus yn ofynnol i fod yn rhan o'r gyllideb gyfun er budd Gogledd Cymru. Mae Gwynedd eisoes wedi gweld gwerth drwy arbrofi'n lleol gyda chronfeydd ar y cyd, gyda chlystyrau yn y gymuned.</p> <p>Mae TO mewn cytundeb i archwilio'r syniadau hyn, ac yn croesawu bod yn rhan o'r drafodaeth i symud ymlaen o safbwynt PBC ac edrych ar yr holl gyfleoedd i chwilio am ffordd ar gyfer cyllideb gyfun ai peidio.</p> <p>Dywedodd MW os nad yw data Gofal Iechyd Parhaus yn cael ei gynnwys fel rhan o safoni data ar draws y rhaglen CH, bydd cyfran fawr o ddata coll. Mae hwn yn rhwystr mawr i'r dull nyrsio ar draws yr ardal.</p> <p>Roedd aelodau o'r Bwrdd o'r farn unwaith eto, os byddai cyfuno cyllid yn ychwanegu gwerth at wasanaeth, yna dylem symud ymlaen, ond hyd yn</p>	<p>RW i roi ymateb mwy manwl ynghylch sefyllfa Gofal Iechyd Parhaus.</p>
--	--

	<p>hyn, nid yw LIC wedi rhoi tystiolaeth gadarn, a'r dystiolaeth hyd yn hyn yw y bydd pobl Gogledd Cymru ar eu colled mewn perthynas â'r arian sy'n ofynnol i weinyddu'r system.</p>	
<p>5.</p>	<p><u>Marchnad / Diweddariad Rhaglen 5 Diwrnod Mewn Ystafell - Rob Smith/ Neil Ayling/Charlotte Walton</u></p> <p>Roedd Jane Sankey yn bresennol yn absenoldeb RS, gan gyflwyno ar y cyd ag NA a CW ar y diweddariad Marchnad darparwyr ar gyfer y Dwyrain.</p> <p>Tynnodd NA sylw at y gwaith a gwblhawyd a nodwyd 5 blaenoriaeth allweddol ar gyfer yr ardal a 3 thema allweddol a ddeilliodd o'r ddau weithdy a gynhaliwyd yn y rhanbarth, gyda thrawstoriad o'r sefydliadau'n bresennol. Fe wnaeth y ddau weithdy ddangos dealltwriaeth o safbwynt bob sefydliad.</p> <p>Roedd y llwyddiannau'n cynnwys: Cymorth Gofal yn agosach at adref i osgoi trosglwyddo pobl i ysbyty. Canolbwyntio ar draws lechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr adnoddau sy'n ofynnol i greu gwasanaethau cefnogi cadarn ar gyfer osgoi derbyniadau, a chymryd risgiau cymedrol i gefnogi bod pobl yn cael eu rhyddhau'n fuan o'r cartref.</p> <p>Drwy ymarfer mapio o'r holl gefnogaeth mewn gwasanaethau cartref, darganfuwyd bod nifer o dimau'n rhoi gwasanaethau tebygol, er eu bod yn dimau bach nad oedd yn gallu rhoi gwasanaeth y tu allan i oriau. Edrychodd lechyd a Gofal Cymdeithasol a chydweithwyr partner ar gyfuno'r holl dimau ynghyd o dan y Tîm Adnoddau Cymunedol. Fe wnaeth y gwasanaeth hwn greu un pwynt cyswllt gydag un gyfres o feini prawf ar gyfer atgyfeirio i'r gwasanaeth, gan osgoi dyblygiad wrth asesu anghenion unigol.</p> <p>Mae cymysgedd o sgiliau amlddisgyblaethol o fewn timau amlddisgyblaethol gyda chefnogaeth trydydd sector yn darparu ymweliadau rheolaidd â'r ED, ac ardaloedd derbyn i symud cleifion drwyddynt.</p> <p>Crëwyd y Ganolfan Gwasanaethau IV gyntaf yng Nghymru yn seiliedig ar yr Ystafell Ivy yn Ysbyty Maelor, gan ddarparu amrediad o wasanaethau IV ar sail galw heibio/gadael. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnwys gwasanaeth trallwysu gwaed naill ai'n fewnol neu gartref. Roedd y gwasanaeth hwn wedi arbed tua 2.2M o ddiwrnodau gwely ers agor.</p> <p>Rhagor o ddatblygiad o'r adnodd 24/7 i gefnogi anghenion o amgylch y cloc – mae'r gronfa ICF, y gronfa pwysau'r gaeaf a'r gronfa gofal sylfaenol wedi'u hwyluso i ddatblygu'r gwasanaeth tu allan i oriau i fodloni angen cleifion, ac mae swydd lechyd a Gofal Cymdeithasol newydd wedi'i chreu i gyflenwi'r ddwy sir, i roi gwasanaeth i gleifion a</p>	

theuluoedd. Mae heriau wedi codi fodd bynnag, wrth recriwtio staff ar gyfer y swydd hon.

Defnyddio Technoleg â Chymorth:

- Botwm Teleofal am ymateb mwy brys
- Teleiechyd – gwybodaeth wedi'i chofnodi ar liniadur i nyrs wirio yn erbyn y paramedrau a osodwyd. AMP yn monitro, gan osgoi ymweliad â'r Meddyg Teulu. Mae'r gwasanaeth WAST hefyd yn cael ei gynnwys ac mae hyn wedi gweld gostyngiad mewn derbyniadau ysbyty.
- Tele-feddygfaeth – galwad skype gyda Meddyg Teulu, gan osgoi trip i'r feddygfa.

Mae'r uned asesiad clinigol a'r gwaith canolbwynt clinigol yn gweithio ar yr un themâu i atal derbyniadau ysbyty, sy'n edrych ar drafod opsiynau amgen dros y ffôn, gan ddarparu gofal cofleidiol i'r claf.

Mae canolfan Iechyd a Lles Sir y Fflint sydd newydd agor yn ddiweddar wedi dod â staff ynghyd i un adeilad, sy'n cynnwys: Meddygon Teulu a Gwasanaeth Cymunedol h.y. nyrsys rhanbarth, ymwelwyr iechyd, gwasanaeth cleifion allanol a gwasanaethau deintydd, ac mae wedi bod yn llwyddiant mawr yn yr ardal.

Bydd blaenoriaethau partner yn 2018-19 yn cynnwys:

- Datblygu'r model rhyddhau i asesu ymhellach, gan ganolbwyntio a thargedu cyfalaf ICF.
- Rhagnodi cymdeithasol – prosiect peilot yn Wrecsam drwy asiantau cymunedol sy'n archwilio pa wasanaethau sy'n dal ar gael mewn cymunedau i atal a chymryd ymyrraeth gynnar.
- Un Pwynt Mynediad - ail-leoli'r Un Pwynt Mynediad yn Sir y Fflint a datblygu'r Un Pwynt Mynediad ymhellach yn Wrecsam.
- Datblygu effaith y Ganolfan Cymorth Cynnar yn Sir y Fflint ymhellach.

Mae tri gweithdy wedi'u cynnal yn ddiweddar i newid diwylliant staff yn eu hagwedd at risg, a dadrymuso staff i wneud penderfyniadau. Roedd yn galonogol nodi bod ymrwymiad wedi bod yn amlwg gan staff ym mhob gwasanaeth, gyda staff newydd hefyd yn gefnogol.

Holodd HM a oedd y newidiadau wedi newid canfyddiad y claf. Cytunodd CW mai dyma yw'r sefyllfa, yn enwedig pan fo pobl yn agored ac yn onest o ran risgiau arhosiad estynedig mewn ysbyty.

Croesawodd TO y cyflwyniad gan y Dwyrain, gan nodi bod Ystafell Ivy yn fodel tebyg i'r Ystafell yn Inffymari Dinbych, gyda phob PSB yng Ngogledd Cymru gyda'u model effeithiol gwahanol eu hunain o'r gwasanaethau.

Ymholodd DW sut y gellir cyfrifo'r elfen ariannol.

	<p>Ymatebodd JS fod y costiau'n cael eu gwneud drwy edrych ar y claf a'u cynllun triniaeth, ac yn seiliedig ar amcangyfrif o'r nosweithiau mewn gwely ysbyty.</p> <p>Holodd MW ynghylch yr agwedd darparwr gofal, canolbwyntio ar gartrefi gofal a gwaith sy'n mynd rhagddo ar ofal cartref. Mae angen ymddiried mewn gweithwyr proffesiynol Cartref Gofal a gweithwyr gofal cartref i ymweld â phobl mewn cartrefi.</p> <p>Cadarnhaodd JS fod gweithwyr gofal cartref wedi'u cynnwys mewn ymyriadau 'Fy nghlinig' oherwydd fe allai'r claf fod yn hysbys iddynt, i sicrhau eu hanghenion orau.</p> <p>Croesawodd ME y cyflwyniad ac roedd diddordeb penodol yn y gwasanaeth tu allan i oriau, a rhagwelir y bydd y 4 PSB yn cydweithio i ymateb i heriau'r dyfodol. Rhoddodd ME wybod hefyd bod cyfarfod yn cael ei drefnu gyda'r Athro John Parkinson o Brifysgol Bangor mewn perthynas â newid diwylliant ac ymateb i risg. Mae'r uned Seicoleg â diddordeb mewn cydweithio a gyda llawer o arbenigedd yn y maes hwn.</p>	
<p>6.</p>	<p><u>Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) - Helen Douglas</u></p> <p>Roedd HD yn bresennol i roi cyflwyniad manwl pellach yn dilyn diweddariad cryno yn y cyfarfod diwethaf.</p> <p>Mae gan HGC dîm penodol nawr yn gweithio ar ACE gyda 3 chydlynnydd yn rhoi cefnogaeth ar draws y rhanbarth, yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i ddeall y ddarpariaeth bresennol a sut mae'r rhaglen yn eistedd o fewn pob cynllun ardal.</p> <p>Adroddwyd bod plant sy'n dioddef camdriniaeth yn fwy tebygol o ymwneud â thrais, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol fel oedolion. Mae tystiolaeth wedi dangos nad yw teuluoedd yn cael y gefnogaeth iawn ac yn cael eu cyfeirio at wasanaethau diogelu. Mae ACE yn brosiect gydol oes sy'n edrych ar y llwybrau, a bydd y canolbwynt ACE yn darparu hyfforddiant a dealltwriaeth i drawsnewid breguster plismona i ddull aml-asiantaeth, wedi'i lywio gan ACE, o ran ymyrraeth gynnar ac atal gwraidd y mater.</p> <p>Y camau nesaf fydd penderfynu ar gyfrifoldebau llywodraethu'r prosiect. Adroddodd HD fod y prosiect yn gweithio'n agos gyda'r BGC, a bydd yn cyfrannu at y Bwrdd Rhaglen Cenedlaethol, a bydd bwrdd lleol yn cael ei sefydlu.</p> <p>Croesawodd TO y prosiect ACE o safbwynt y BI a'r cyfle i gydweithio. Fel ardal wledig, mae cyfleoedd i symud ymlaen gyda'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel.</p>	

	<p>Mae Bwrdd Rhianta Corfforaethol Gwynedd yn adolygu plant sydd o dan gyfrifoldeb yr awdurdod. Ymholodd ME ynghylch y gwaith sy'n cael ei gyflawni gyda'r plant hyn sy'n profi plentyndod anodd, ac a yw hyn yn ffurfio rhan o'r prosiect ACE.</p> <p>Mae'r ganolfan ACE yn rhagweld y bydd cydweithio agos ag Awdurdodau Lleol; addysg, ymwelwyr iechyd ac ati, i roi cyfle i fabwysiadu a hyfforddi athrawon. Mae plant angen un person y gallant ymddiried ynddo yn ystod eu bywydau i adeiladu gwydnwch, mae gan bob partner rôl i'w chwarae mewn ACE, gan ganolbwyntio ar waith gyda phlant a theuluoedd.</p> <p>Awgrymodd ME y dylid mapio'r trefniadau llywodraethu. Nid yw'r PSB yn atebol i'r SCB ac mae'n ymddangos fod yna ddolen goll yma. Mae PSB angen meddwl ymhellach o ran eu perthynas â'r Bwrdd hwn. Mae llywodraethu ACE angen eistedd ar y Bwrdd cywir, mae FJ yn cadeirio'r Bwrdd Integreiddio ar draws GC ac YM ac mae ME yn awgrymu y dylai ACE fod yn rhan o'r Bwrdd hwn.</p> <p>Mae ACE wedi'i gyflwyno i Brif Swyddogion Gweithredol GC a deimlai'r angen i eistedd ar un bwrdd. Gwnaed awgrym i wahodd y prosiect ACE yn ôl i adrodd ar NWRPB yn rheolaidd.</p> <p>Dyweddodd y Cyng. JL fod y Gwasanaeth Maethu'n un maes allweddol lle rhoddir plant mewn gofal a cynigiodd bod ACE i hidlo i lawr i'r lefel hon i gasglu gwybodaeth/profiadau.</p> <p>Nododd TO fod yr SCB yn gorfod symud ymlaen, a bod gan ACE gartref dros dro hyd nes y bydd Bwrdd llywodraethu arall wedi'i gadarnhau.</p>	
7.	<p><u>Adroddiad Blynyddol RPB - Bethan Jones Edwards</u></p> <p>Mae adroddiad drafft terfynol wedi'i gylchredeg gyda'r pecyn. Ceisiwyd adborth gan aelodau Bwrdd ar sawl achlysur. Fe wnaeth y canllaw gan LIC fanylu y dylid dychwelyd uchafswm o 20 tudalen i LIC erbyn diwedd Mehefin.</p> <p>Holodd DW a oedd trywydd i drafod cynnwys yr Adroddiad Blynyddol gyda LIC.</p> <p>Bydd cyfle i aelodau'r Bwrdd godi unrhyw faterion yn eu cyfarfod nesaf 5 Gorffennaf, pan fydd y Gweinidog yn bresennol.</p> <p>Roedd aelodau'r Bwrdd yn cytuno i gefnogi'r Adroddiad Blynyddol.</p>	
8.	<p>Unrhyw Fater Arall – dim i'w adrodd</p>	
	<p><u>Cytuno ar 5 neges allweddol ar gyfer y diweddariad Cyfathrebu PSB – arferion gorau i'w rhannu a sut mae gwahanol ardaloedd yn gweithio. Rhannwyd fel dinesydd.</u></p>	

	Menter ACE. Cyllidebau Cyfun - bwrw ymlaen fel taith	
	Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Gwener, 13 Gorffennaf am 9.00am Nodwch fod yna gyfarfod ychwanegol hefyd wedi'i drefnu ar gyfer dydd lau 5 Gorffennaf am 9:00am, lle bydd y Gweinidog Huw Irranca- Davies yn bresennol.	